Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Rossett House**

**Rossett House**
**Llay Road**
**Yr Orsedd**
**Wrecsam**
**LL12 0HT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/05/2023

# Meithrinfa Rossett House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Active Childcare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 68 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mawrth 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae llesiant y plant wrth wraidd y gofal y maent yn ei gael. Maent yn hapus, wedi ymlacio ac yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd, yn meddu ar gydberthynas dda â'r staff ac yn gwneud ffrindiau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda, ac yn datblygu gofal a dealltwriaeth tuag at ei gilydd. Maent yn mwynhau'r profiadau sydd ar gael iddynt ac yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau a ddewisir ganddynt. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau ac i fod yn annibynnol.

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol y lleoliad ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn ddiogel. Maent yn hyrwyddo ffordd iach o fyw drwy'r dewis o fwyd a diod a gynigir a thrwy sicrhau y gall y plant fod yn weithgar a chael awyr iach. Mae'r staff yn cynllunio mewn modd effeithiol sy'n sicrhau y caiff diddordebau'r plant eu hystyried ac y caiff eu camau dysgu nesaf eu hystyried.

Mae'r amgylchedd yn cynnig lle ysbrydoledig i'r plant chwarae a dysgu ynddo. Mae'n ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored yn rhoi'r lle a'r cyfleusterau i'r plant ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda er mwyn sicrhau bod dewisiadau cyffrous ar gael i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Maent yn rheoli'r lleoliad a'r staff yn dda, gan sicrhau bod y plant yn cael gofal priodol. Mae'r broses hunanwerthuso yn effeithiol, a gwneir gwelliannau cadarnhaol. Caiff cydberthnasau da eu datblygu â'r rhieni er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am brofiadau a datblygiad eu plentyn.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn cael llawer o ddewisiadau a gallant wneud penderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser. Maent yn symud o amgylch yr amgylchedd yn rhydd, gan ddewis ble yr hoffent chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef. Er enghraifft, nid oedd un o'r plant iau am gymryd rhan yn y gweithgaredd a gynlluniwyd dan arweiniad yr oedolyn. Gadawyd iddo ddewis parhau i chwarae yn y gornel gartref. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol iddynt. Er enghraifft, wrth ddewis pa gân i'w chanu yn ystod amser cylch. Mae'r plant nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar eto yn defnyddio Makaton ac arwyddion eraill fel pwyntio i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn y lleoliad gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r arferion. Roedd y plant hynny y gwnaethom eu gweld yn cyrraedd yn gwahanu'n dda oddi wrth eu rhieni ac roeddent yn hapus i fod yn y lleoliad ac i ymuno â'r lleill. Mae gan y plant gydberthnasau da â'r staff ac maent yn ddigon bodlon i fynd atynt am gysur neu gymorth pan fo angen. Maent yn gwneud ffrindiau gyda'r plant eraill, gan eu helpu i deimlo'n hapus.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda am eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn dangos dealltwriaeth tuag at ei gilydd ac yn dysgu empathi a gofal tuag at blant eraill ac anifeiliaid. Er enghraifft, roedd un plentyn yn poeni ble oedd y crwban anwes ac esboniodd y staff ei fod yn cysgu ac mai dyna pam na allai ei weld. Mae'r plant yn dysgu i gydweithredu, rhannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, roeddent yn aros eu tro yn amyneddgar i ddringo'r grisiau i groesi'r bont ac i fynd i lawr y llithren. Maent yn parchu ei gilydd a'r adnoddau, gan eu defnyddio yn briodol a helpu i dacluso pan ofynnir iddynt. Mae'r plant yn gwrtais a chlywsom blant o bob oedran yn dweud os gwelwch yn dda a diolch yn aml.

Mae'r plant wir yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Roeddent yn gwenu ac yn chwerthin wrth chwarae. Mae'r plant yn ymgysylltu â'r gweithgareddau a ddewisir ganddynt am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Gallant ddilyn eu diddordebau a mwynhau'r hyn y maent yn ei wneud. Er enghraifft, roedd plentyn yn canolbwyntio ar ludo eitemau ar lun roedd yn ei greu yn yr ardal grefft.

Mae'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael yn galluogi'r plant i roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain ac i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Er enghraifft, roedd plentyn yn canolbwyntio ar geisio symud brics sbwng gan ddefnyddio'r ferfa. Roedd yn dyfalbarhau wrth iddo weithio allan sawl bricsen y gallai ei chynnwys yn y ferfa heb i unrhyw frics ddisgyn allan. Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i fod yn annibynnol. Mae'r eitemau a'r ardaloedd dysgu y maent am eu defnyddio ar gael yn hwylus iddynt ac mae'r rhai hynny sy'n gallu defnyddio'r cyfleusterau fel y toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn annibynnol yn gwneud hynny.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau priodol y lleoliad ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Maent yn deall y weithdrefn ddiogelu ac yn gwybod beth y dylent ei wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gellir rhoi cyfrif am y plant a'u bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Er enghraifft, caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd, a chedwir cofrestrau presenoldeb ar gyfer y plant.

Mae'r staff yn dilyn arferion effeithiol er mwyn sicrhau bod gan y plant gyfleoedd rheolaidd i fynd allan i'r awyr agored er mwyn iddynt fod yn egnïol a chael awyr iach. Mae'r byrbrydau a'r prydau bwyd a ddarperir yn faethlon ac mae'r staff yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion deietegol y plant ac yn bodloni'r gofynion hynny. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau effeithiol ar waith ac yn ymdrin â gofal personol, fel newid cewynnau, yn briodol er mwyn atal germau rhag lledaenu.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda iawn â'r plant mewn ffordd sy'n dangos gofal a pharch tuag atynt.  Maent yn gwrando'n astud ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, gan ddangos diddordeb a dealltwriaeth. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac maent yn cymryd rhan yng gweithgareddau ac arferion y plant er mwyn addysgu parch i'r plant a sicrhau cyfleoedd ar gyfer profiadau cymdeithasol. Er enghraifft, drwy eistedd gyda'r plant amser cinio a siarad â'r plant am eu diddordebau a'u teuluoedd. Mae'r staff yn canmol y plant yn briodol er mwyn dathlu eu cyflawniadau, gan helpu'r plant i deimlo balchder yn yr hyn y maent yn ei wneud.

Mae'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac anghenion y plant sy'n cael gofal ganddynt. Maent yn cynllunio gweithgareddau a chyfleoedd cyffrous i'r plant sy'n eu hysbrydoli i ddysgu ac i fod yn chwilfrydig wrth chwarae. Mae'r staff yn defnyddio dulliau cwestiynu priodol i annog y plant i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud ac i ddatrys problemau. Er enghraifft, roedd grŵp o blant am roi baner ar ben y castell roeddent wedi'i wneud yn yr ardal adeiladu. Gofynnodd y staff beth y gallen nhw ei wneud a beth y byddai ei angen arnynt o bosibl. Cydweithiodd y plant ac ar ôl ymdrechu sawl gwaith, llwyddwyd i osod y faner ar ben y castell. Mae'r staff yn nodi diddordebau ac anghenion datblygu'r plant er mwyn cynllunio gweithgareddau addas. Maent yn olrhain cynnydd y plant ac yn cynllunio eu camau dysgu nesaf a chaiff hyn wedyn ei ddefnyddio'n llwyddiannus wrth gynllunio. Mae'r staff yn rhoi cyfleoedd i'r plant fod yn annibynnol ac yn rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn gweini eu cinio eu hunain ac yn arllwys eu diodydd eu hunain.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel. Caiff mynedfa'r lleoliad ei rheoli, caiff y drysau allanol eu cadw dan glo a chaiff ymwelwyr eu cofnodi. Mae ffens ddiogel o amgylch yr ardaloedd awyr agored a chaiff y giatiau eu cadw dan glo, er mwyn sicrhau nad oes modd i'r plant adael heb oruchwyliaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg rheolaidd ar y safle ac ar gyfer y gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt er mwyn sicrhau y caiff peryglon eu nodi a'u rheoli'n dda. Caiff gwiriadau dyddiol eu cwblhau i sicrhau nad oes unrhyw beryglon newydd wedi codi.

Mae'r amgylchedd yn addas i'r plant, yn olau ac yn lliwgar. Mae'r amgylchedd wedi'i addurno'n dda ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda sy'n darparu awyrgylch cynnes a chroesawgar i'r plant. Mae'r arddangosiadau deniadol yn dathlu gwaith y plant ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae'r ystafelloedd gwahanol yn golygu y gellir rhannu'r plant yn grwpiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu ac maent yn rhoi'r lle sydd ei angen ar y plant i chwarae a dysgu. Mae'r ardaloedd awyr agored mawr a chroesawgar yn darparu amrywiaeth o ardaloedd ysbrydoledig i'r plant. Mae’r rhain yn cynnwys ‘mini village’ lle ceir ‘tai’ wedi’u trefnu mewn gwahanol ardaloedd chwarae rôl gan gynnwys canolfan arddio, siop, garej a iard adeiladwyr. Gall y plant ddatblygu eu sgiliau corfforol a chymryd risgiau wrth chwarae ar yr amrywiaeth o gyfarpar chwarae sefydlog, gan gynnwys cyfarpar cydbwyso, llithrennau a phontydd. Mae'r berllan yn cynnig ardal naturiol lle gall y plant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Mae iard ar gael i'r plant hŷn sy'n cynnwys gwahanol ardaloedd dysgu ac amrywiaeth o brofiadau. Mae'r cae mawr ar gael ar gyfer gweithgareddau mwy corfforol ac er mwyn cynnig mwy o le.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall anghenion a diddordebau'r plant ac maent yn sicrhau bod adnoddau addas ar gael yn yr amgylchedd. Mae'r deunyddiau naturiol a'r darnau rhydd sydd ar gael yn helpu i ysbrydoli'r plant ac i ddatblygu eu chwilfrydedd. Er enghraifft, tiwbiau cardfwrdd a darnau pren a ddefnyddiwyd i gyfrif ac archebu. Mae dodrefn a chyfleusterau storio addas ar gael yn yr amgylchedd sy'n galluogi'r plant i fod yn gyfforddus ac yn annibynnol. Mae'r cyfleusterau storio wedi'u labelu yn sicrhau bod y plant yn gwybod ble i ddod o hyd i eitemau a ble i'w dychwelyd. Mae cyfleusterau fel y toiledau yn hawdd eu cyrraedd ac mae ardaloedd newid cewynnau addas yn sicrhau urddas i'r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ei reoli'n dda. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'r gofal y maent yn ei ddarparu ac yn cymryd rhan weithredol wrth redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae'r polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu'r lleoliad ac yn cael eu diweddaru pan fo angen. Mae'r datganiad o ddiben yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y rhieni i benderfynu ai dyma'r gofal cywir ar gyfer eu plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu'r gofal y maent yn ei ddarparu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y plant. Mae'r adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal yn ystyried safbwyntiau'r rhieni, y plant a'r staff. Caiff gwelliannau eu cynllunio a'u gwneud gan ystyried canlyniadau'r broses hunanwerthuso. Er enghraifft, awgrymodd y rhieni y gellid cyflwyno ap er mwyn eu hysbysu'n well ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bellach wedi gwneud hyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn dda. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i fodloni'r rheoliadau. Mae ganddynt dîm da o staff sy'n cydweithio'n dda iawn, gan sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda a bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae proses recriwtio a sefydlu gadarn iawn ar waith sy'n sicrhau bod y staff yn addas i ofalu am y plant. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd rhwng y staff a'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ac y gellir nodi anghenion hyfforddi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybodaeth reolaidd i'r rhieni ac yn eu hysbysu am brofiadau a datblygiad eu plentyn. Maent yn anfon gwybodaeth a lluniau rheolaidd at y rhieni drwy ap. Maent yn meithrin cydberthnasau da ac roedd yr ymatebion a gafwyd yn yr holiaduron i'r rhieni yn gadarnhaol iawn. Roeddent yn cynnwys,
"*staff are outstanding; so caring and going above and beyond to support the children*" a "*leaders and managers are very approachable and personable. Also very present*." Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gydberthnasau da ag asiantaethau allanol ac maent yn cydweithio'n dda i ddarparu unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar y plant er mwyn gallu diwallu eu hanghenion.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/07/2023